

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid – Y Bumed Senedd

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Bethan Davies
Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.30	Cysylltu@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Papur(au) i'w nodi

(09:30)

(Tudalennau 1 – 3)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2020

2.1 PTN1 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Data cwynion y GIG – 26 Tachwedd 2020

(Tudalennau 4 – 5)

2.2 PTN2 – Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Data cwynion y GIG – 1 Rhagfyr 2020

(Tudalen 6)

2.3 PTN3 – Llythyr gan Golegau Cymru: Ffyrlo – 4 Rhagfyr 2020

(Tudalen 7)

2.4 PTN4 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Ymgynghoriad ar God Asesu Effaith Rheoleiddiol (AERh) diwygiedig – 8 Rhagfyr 2020

(Tudalen 8)



2.5 PTN5 – Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) – Dadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol – 9 Rhagfyr 2020

(Tudalen 9)

3 Effaith adolygiad Llywodraeth y DU o wariant: Sesiwn dystiolaeth

(09:30 – 10:30)

(Tudalennau 10 – 39)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru

Julian Revell, Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru

Sarah Govier, Pennaeth Polisi Gwariant Cyhoeddus

Papurau ategol:

FIN(5)–25–20 P1 – Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd Gwladol Cymru:

Adolygiad o wariant Llywodraeth y DU – 27 Tachwedd

FIN(5)–25–20 P2 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Adolygiad

o Wariant Llywodraeth y DU – 5 Rhagfyr 2020

FIN(5)–25–20 P3 – Llythyr oddi wrth Undeb Ffermwyr Cymru – 4 Rhagfyr 2020

Papur briffio

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10:30)

5 Effaith adolygiad Llywodraeth y DU o wariant: Trafod y dystiolaeth

(10:30 – 10:45)

6 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith

Cyllidol: Materion allweddol

(10:45 – 11:15)

(Tudalennau 40 – 67)

Papurau ategol:

FIN(5)–25–20 P4 – Papur Materion Allweddol

7 Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad

(11:15 – 11:45)

(Tudalennau 68 – 197)

Papurau ategol:

FIN(5)-25-20 P5 – Papur clawr: Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft

FIN(5)-25-20 P6 – Llyfryn ymgynghori

FIN(5)-25-20 P7 – Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

FIN(5)-25-20 P8 – Pryderon Llywodraeth Cymru

FIN(5)-25-20 P9 – Ymateb Archwilio Cymru i bryderon Llywodraeth Cymru

FIN(5)-25-20 P10 – Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) Drafft

FIN(5)-25-20 P11 – Llythyr gan Bennaeth y Gyfraith a Moeseg, Archwilio Cymru – 7 Chwefror 2020

FIN(5)-25-20 P12 – Sut mae amcangyfrifon Archwilio Cymru wedi newid dros amser

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Fideo gynadledda drwy Zoom

<http://senedd.tv/cy/6561>

Dyddiad: Dydd Llun, 30 Tachwedd 2020

Amser: 14.30 – 15.55

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Llyr Gruffydd AS (Cadeirydd) Alun Davies AS Siân Gwenllian AS Mike Hedges AS Rhianon Passmore AS Nick Ramsay AS Mark Reckless AS
Tystion:	Matthew Jenkins, Llywodraeth Cymru Anna Adams, Llywodraeth Cymru Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Julian Revell, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Leanne Hatcher (Ail Clerc) Georgina Owen (Ail Clerc)



	Mike Lewis (Dirprwy Glerc) Joanne McCarthy (Ymchwilydd) Christian Tipples (Ymchwilydd)
--	--

1 Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol – Briff technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol ar y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol gan Matthew Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaethau a Chydweithrediad, Llywodraeth Cymru; ac Anna Adams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth Polisi Strategaeth Treth ac Ymgysylltu, Llywodraeth Cymru.

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cyllid.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Cafodd y papurau eu nodi.

3.1 PTN 1 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020 – 11 Tachwedd 2020

3.2 PTN 2 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cod Ymarfer Archwilio – 18 Tachwedd 2020

3.3 PTN 3 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Dyletswydd economaidd-gymdeithasol – 25 Tachwedd 2020

4 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r Fframwaith Cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 9

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru; a Julian Revell, Pennaeth Dadansoddiad Cyllidol, Trysorlys Cymru ar ei ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014, a gweithrediad y Fframwaith Cyllidol.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn a'r cyfarfod ar 7 Rhagfyr

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r Fframwaith Cyllidol: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Adroddiad ar Alldro 2019–20 – Llywodraeth Cymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Llywodraeth Cymru ar Alldro 2019–20.

8 Rôl a Chylchoedd Gwaith Sefydliadau Cyllidol Annibynnol – Cynulliad Gogledd Iwerddon

8.1 Trafododd y Pwyllgor y llythyr a'r papur ymchwil cysylltiedig gan Gynulliad Gogledd Iwerddon.

Eitem 2.1

Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/08940/20

Mr Nick Bennett
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Marilyn.Morgan@ombudsman-wales.org.uk

26 Tachwedd 2020

Annwyl Nick,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref yn gofyn am gyfarfod. Ni allaf gyfarfod â chi y tro hwn, ond gallaf dawelu eich meddwl bod y gwaith o weithredu'r argymhelliad y dylid cael data cyson a chadarn ar gwynion yng Ngwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru, fel y nodwyd yn Adroddiad Evans, 'Defnyddio Cwynion yn Rhodd', bron â dod i ben.

Rwy'n deall eich bod wedi mynegi bod angen data cyson, cadarn ar gwynion yn GIG Cymru yn ystod cyfarfod Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Senedd ar 21 Medi a chyfarfod Pwyllgor Cyllid y Senedd ar 5 Hydref.

Mae'r rhaglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru yn cael ei harwain gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Nod y rhaglen yw sicrhau cysondeb o ran rheoli data a dylunio llif gwaith mewn perthynas â sut mae cyrff iechyd yng Nghymru yn gweithio ar draws y sector pryderon.

Mae tîm y rhaglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru wedi bod yn gweithio gyda GIG Cymru i ddatblygu set ddata genedlaethol ar gwynion ar gyfer GIG Cymru. Cynhaliwyd gweithdai gyda chynrychiolwyr o dimau pryderon ledled GIG Cymru. Amlygodd y gweithdai a'r gwaith dadansoddi data amrywiad eang yn y modd y caiff Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011 eu dehongli. Cytunwyd yn y gweithdai ar ffurflen ddiwygiedig ar gyfer cofnodi ac adrodd am gwynion, gyda diffiniadau a chanllawiau atodol er mwyn lleihau'r amrywiad o ran arferion. Defnyddiwyd y ffurflen ddiwygiedig a'r diffiniadau gan gyrff iechyd i gyflwyno data ar gwynion bob chwarter yn 2019-20 ac maent yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd i gyflwyno data ar gwynion bob chwarter ar gyfer 2020-21. Caiff y data eu dilysu gan dîm y rhaglen System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru, sy'n parhau i roi cymorth i gyrff iechyd i sicrhau bod y data yn gadarn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 4
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn cydnabod ei fod wedi cymryd mwy o amser nag y byddem wedi ei obeithio i weithredu'r argymhelliad yn ymwneud â data cyson ar gwynion yn Adroddiad Evans, ond fel Llywodraeth, rydym yn parhau'n gwbl ymroddedig i sicrhau bod GIG Cymru yn creu set ddata gyson, gymaradwy a chadarn ar gyfer cwynion.

Gall swyddogion Llywodraeth Cymru a'r GIG egluro'n fwy manwl pa waith sy'n mynd rhagddo a pha amserlenni a ddilynir wrth gyflawni'r rhaglen. Os hoffech drefnu cyfarfod, cysylltwch â Teresa Bridge: Teresa.Bridge@llyw.cymru.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

cc: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth
Leol

Ein cyf: NB/mm Gofynnwch Nick Bennett
am:
Eich cyf: VG/08940/20  01656 641152
Dyddiad: 1 Rhagfyr 2020  Marilyn.morgan@ombwdsmon.cymru

Mr Vaughan Gething AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

Trwy Ebst yn unig:
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Annwyl Vaughan

Data am Gwynion y GIG

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2020 yn egluro nodau'r rhaglen System Rheoli Pryderon Unwaith dros Gymru.

Byddwn wrth fy modd cwrdd â swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y GIG i glywed am y gwaith a gynhelir ar hyn o bryd a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r gwaith, gyda golwg ar sicrhau bod ein gwaith ASC yn ategu eu hymdrechion. Mi ofynnaf i fy Nghynorthwydd Gweithredol, Marilyn i gysylltu â Teresa i wneud trefniadau.

Yn y cyfamser, ar ôl blwyddyn hynod heriol, hoffaf ddymuno'r gorau i chi a'ch cydweithwyr ar gyfer y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Yn gywir



Nick Bennett
Yr Ombwdsmon

Copi: Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyllid
SeneddFinance@senedd.wales
John Griffiths AS, Cadeirydd - Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau SeneddCommunities@senedd.wales

Tudalen 1 o 1

4 Rhagfyr 2020

Annwyl Gydweithiwr,

Cyfnod ffyrlo ColegauCymru

Bydd ColegauCymru yn gweithredu cyfnod o ffyrlo llawn ar gyfer y tîm cyfan o **ddydd Iau 10 Rhagfyr 2020 i dydd Llun 18 Ionawr 2021**.


Yn ystod y cyfnod hwn ni fydd staff ColegauCymru yn gallu gweithio ac felly ni fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau arferol nac yn ymateb i unrhyw ymholiadau a dderbynnir.

Oherwydd natur yr adeg o'r flwyddyn, credwn fod y penderfyniad i roi ein staff ar absenoldeb ffyrlo dros gyfnod cyffredinol tawel y Nadolig yn golygu y bydd yr anghyfleustra lleiaf yn cael eu teimlo gan ein rhanddeiliaid. Mae'r cyfnod hefyd yn cynnwys ffenestr pythefnos lle byddai ColegauCymru fel arfer yn cau ei drysau ar gyfer gwyliau'r Nadolig.

O 18 Ionawr 2021, byddwn yn ailddechrau gwasanaeth cyfyngedig wrth i ni gymryd rhan mewn rhaglen ffyrlo hyblyg am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2021.

Ymddiheurwn yn ddiffuant am unrhyw anghyfleustra y gallai hyn ei achosi i chi a'ch sefydliad ac yn eich annog i gysylltu â mi gydag unrhyw bryderon a allai fod gennych mor fuan â phosib.

Yr eiddoch yn gywir,



Iestyn Davies
Prif Weithredwr

Unit 7 Cae Gwyrdd
Greenmeadow Springs
Tongwynlais, Cardiff
CF15 7AB



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA-RE-4111-20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod ymgynghoriad ar God Asesiadau Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar gyfer is-ddeddfwriaeth wedi agor heddiw. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru (<https://llyw.cymru/ymgynghoriadau>).

Fel y nodir yn y Cod drafft, polisi Gweinidogion Cymru bob amser yw llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol bob amser ar gyfer is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol, heblaw am nifer fach o eithriadau. Mae swyddogion wedi adolygu a, lle bo angen, wedi diwygio'r eithriadau (sy'n disgrifio sefyllfaoedd lle na fyddai angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol) i sicrhau bod y dull gweithredu yn y Cod yn glir ac yn gymesur. Yn ogystal, gwnaed nifer o newidiadau i symleiddio'r Cod ac i ddiweddarau terminoleg a chyfeiriadau.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac edrychaf ymlaen at gael barn y ddau Bwyllgor ar y Cod drafft. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 4 Mawrth 2021.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 8
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Lynne,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am graffu ar y Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2020.

Byddaf yn ymateb i argymhellion y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

Yn ystod y ddadl byddaf hefyd yn ymateb i adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Bil. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y ddau Bwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd drwy broses y Senedd.

Yn gywir

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

27 Tachwedd 2020

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU – a draddodwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 25 Tachwedd – rwy'n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru i ofyn am ddiweddariad brys ar effaith yr adolygiad o wariant yng Nghymru.

Yn wyneb yr adolygiad o wariant a'r pryderon a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei **hymateb ysgrifenedig**, mae gan y Pwyllgor Cyllid ddiweddordeb arbennig mewn cael diweddariad ar y canlynol:

- Y sector amaethyddol** – Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ymddangos bod cynigion y Canghellor ar gyfer cyllid yn lle cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn gadael ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru £137m yn brin o'r cyllid disgwylid yn 2021-22. Rydym am ddeall cyfrifiadau Llywodraeth y DU o ran mynediad at gyllid o gyllid parhaus yr UE, a sut mae cyfanswm y cyllid sydd ar gael yn cymharu â'r cyllid oedd ar gael yn y blynyddoedd blaenorol.
- Cronfa Ffyniant Gyffredin** – Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd Llywodraeth y DU yn mynd heibio i Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu cyllid o'r Gronfa Ffyniant a Rennir, a bod cyfanswm y gronfa ar gyfer y DU gyfan yn £220m yn y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd mae Cymru yn cael £375m o Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, felly mae'n ymddangos bod yna ddiffyg sylweddol.
- Y newid yn ffactor cymaroldeb y Datganiad Polisi Cyllid mewn perthynas â **gwariant trafndiaeth o 80.9% o 36.6%**, yn bennaf o ganlyniad i HS2.
- Canlyniadau o ran cyfalaf i Gymru** – Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y rhain yn isel o gymharu â chynnydd mewn buddsoddiad cyfalaf yn y DU yn ei chyfanrwydd, sef yr hyn a nodwyd yn yr Adolygiad o Wariant. Yn rhannol, mae'n debygol y bydd hyn yn gysylltiedig â HS2.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddFinance@senedd.wales

0300 200 6565

Bydd y Pwyllgor Cyllid yn gwahodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ddod i gyfarfod ar 7 Rhagfyr i drafod effeithiau'r adolygiad o wariant yng Nghymru, felly byddem yn ddiolchgar iawn petai eich hymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad hwn.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Ein cyf: 255SOS 20

**Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart, Aelod
Seneddol**

Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ffôn: 0292 092 4216

E-bost:
Correspondence@ukgowales.gov.uk

Llŷr Gruffydd, Aelod o'r Senedd

Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru

E-bost: SeneddFinance@senedd.wales

07 Rhagfyr 2020

Annwyl Llŷr,

Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd ynghylch yr Adolygiad o Wariant.

O ran y sector Amaethyddol, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r Cytundeb Ymadael yn datgan y bydd y DU yn parhau i gymryd rhan yn holl raglenni'r UE sy'n cael eu hariannu gan y Fframwaith Ariannol Amflwydd 2014-2020 nes byddant yn dod i ben. Mae hyn yn sicrhau bod modd cael gafael ar gyllid yr UE o hyd ar gyfer sawl rhaglen wledig, gan gynnwys Colofn 2 o'r PAC, EMFF ac ERDF nes byddant yn cael eu cwblhau. Mae Llywodraeth y DU yn dal i fod wedi ymrwymo i warantu i ariannu rhan olaf ymrwymadau Colofn 2 o'r PAC, sydd y tu allan i gwmpas y Cytundeb Ymadael.

Yn ail, fe wnaethom ymrwymiad clir yn ein maniffesto i warantu'r gyllideb flynyddol bresennol i ffermwyr yn ystod pob blwyddyn o'n cyfnod yn Senedd y DU. Mae meintoliad yr ymrwymiad yn y maniffesto yn pennu'r cwmpas blynyddol cyffredinol yn £337m i Gymru.

Mae ein hymrwymiad yn y maniffesto yn cael ei gyflawni drwy gyfuniad o gyllid gan y Trysorlys a chyllid yr UE a fydd yn dal i fod ar gael ar gyfer Colofn 2 o'r PAC o dan delerau'r Cytundeb Ymadael, nes bydd yr arian wedi dod i ben. Mae cyfanswm cyllid yr UE sydd ar ôl yn amrywio ar draws y pedair gwlad. Ond mae Trysorlys EM wedi dilyn dull gweithredu cyson, gan ychwanegu cyllid y Trysorlys at daliadau'r UE, hyd at lefel yr ymrwymiad yn y maniffesto. Mae hyn yn sicrhau bod yr ymrwymiad i warantu'r gyllideb flynyddol bresennol yn cael ei fodloni ym mhob gwlad.

O ran y Gronfa Ffyniant Gyffredin, bydd Llywodraeth y DU yn darparu £220 miliwn yn 2021-22 i helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin dros fwy na blwyddyn yn y DU. Bydd y cyllid hwn yn ychwanegol at weddill Cronfeydd Strwythurol yr UE sy'n lleihau ond sy'n sylweddol ac a fydd yn dal i lifo i Gymru y

flwyddyn nesaf. Rydym yn rhagweld, rhwng popeth, y bydd hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn buddsoddiad yng Nghymru y flwyddyn nesaf, o gymharu â'r taliadau blynyddol cyfartalog yn ystod saith mlynedd flaenorol y Cronfeydd Strwythurol.

O ran cyflawni, rydym yn bwriadu gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a chymunedau lleol i sicrhau bod y buddsoddi'n cefnogi pobl a busnesau yng Nghymru mewn ffordd effeithiol. Wedi dweud hynny, rydym yn dal i fod yng nghanol pandemig byd-eang ac mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb dros bobl, busnesau a chymunedau ym mhob un o bedair gwlad yr Undeb. Nid yw ond yn iawn i ni felly fod yn gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau strategol ar draws y DU. Byddwn yn cyflwyno rhagor o fanylion am Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU mewn fframwaith buddsoddi ar gyfer y DU gyfan, a gyhoeddir yn ystod y gwanwyn.

O ran ffactorau cymhariaeth ar gyfer trafndiaeth, mae'r ffactorau cymhariaeth yn cynrychioli ba raddau y mae gwariant adran mewn meysydd a gedwir yn ôl neu ddatganoledig. Mae dau brif reswm dros y gostyngiad yn y ffactor cymhariaeth o ran trafndiaeth. Yn gyntaf, fel cyfran o wariant cyffredinol yr Adran Drafndiaeth, mae cyfanswm y gwariant ar raglenni y mae gan yr adran gymhwysedd drostynt yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu.

Ers yr Adolygiad o Wariant yn 2015, mae gwariant ar seilwaith rheilffyrdd trwm, gan gynnwys HS2, wedi cynyddu. Yr Adran Drafndiaeth sy'n ariannu'r holl raglenni seilwaith rheilffyrdd trwm yng Nghymru, oni bai fod cytundebau eraill ar gael. Oherwydd dull gweithredu fformiwla Barnett yn ystod yr Adolygiad o Wariant yn 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn symiau canlyniadol sylweddol o gyfalaf Barnett, a gynhyrchwyd gan HS2. O ganlyniad, mae gan Lywodraeth Cymru tua £170m yn ei chyllideb cyfalaf ar gyfer 2020-21 sy'n gysylltiedig â HS2, a bydd yn parhau i dderbyn hyn bob blwyddyn yn ei gwaelodlin cyfalaf.

Yn ail, ers Adolygiad o Wariant 2015, mae Network Rail wedi cael ei ail gategorio yn Gorff Llywodraeth Ganolog, felly mae'n cael ei gynnwys fel rhan o'r Adran Drafndiaeth. Cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatganoli Prif Linellau'r Cymoedd, a throsglwyddwyd y llinell ym mis Mawrth 2020. Roedd hyn o dan gytundeb ariannol niwtral tan 2023-24. Network Rail sy'n dal i fod yn gyfrifol am y rhwydwaith rheilffyrdd ehangach yng Nghymru, felly mae'n iawn fod y ffactor cymhariaeth ar gyfer Network Rail yn parhau i fod yn 0%.

Felly nid unrhyw newid mewn polisi sydd wedi arwain at newid yn y ffactor cymhariaeth. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu gwariant yr Adran Drafndiaeth ar hyn o bryd, yn unol â gwaith cyfrifo'r ffactorau cymhariaeth arferol.



UK Government
Llywodraeth y DU

Ein cyf: 255SOS 20

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart, Aelod Seneddol

Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Ffôn: 0292 092 4216

E-bost:

Correspondence@ukgowales.gov.uk

O ran symiau canlyniadol cyfalaf i Gymru, mae'r symiau canlyniadol a gynhyrchir gan fformiwla Barnett yn seiliedig ar newidiadau i gyllidebau UKG, fel sydd wedi'u nodi yn y Polisi Datganiad Cyllid diwygiedig, ac mae'n berthnasol i gynnydd a gostyngiad mewn cyllid.

Mae'r Adolygiad o Wariant yn cadarnhau bod £1.3bn yn ychwanegol ar gael i Lywodraeth Cymru drwy fformiwla Barnett yn 2021-22. Gall Llywodraeth Cymru ddewis dyrannu'r cyllid ychwanegol hwn ar fuddsoddiad cyfalaf os yw'n dymuno. Mae hyn yn ychwanegol at y gwariant cyfalaf ledled y DU a fydd o fudd i'r pedair gwlad. Gall Llywodraeth Cymru fenthycu at ddibenion cyfalaf hefyd, hyd at uchafswm cronus o £1bn.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart, Aelod Seneddol

Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru



Dr N. I. D. Fenwick, Head of Policy, Farmers' Union of Wales, Llys Amaeth, Plas
Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BT
Tel: 01970 820820
Fax: 01970 820821
E-mail: nick.fenwick@fuw.org.uk

Llyr Gruffydd MS
Chair
Finance Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales

4th December 2020

Annwyl Llyr

I understand that the Finance Committee is likely to hold an inquiry into the UK Government's Spending Review and its implications for Wales, including in terms of the funding announced for Welsh agriculture and rural development for the 2021-22 financial year.

As such, we would like to submit the below comments for consideration by the Committee, which we hope outlines why the FUW believe that the £242 million allocation for Welsh agriculture and rural development represents a cut to Welsh funding of around a third, and that the allocation is based on creative accounting and a disingenuous interpretation of the commitments made by numerous Secretaries of State and in the 2019 Conservative Manifesto.

Since we are currently in discussion with the Welsh Government regarding the specific implications of the cut, we are not in a position to speculate about what these may be. However, I can confirm that we have made it clear to the Welsh Government that cuts to the 2021-22 Basic Payment budget should not be made given the far-reaching consequences of these at a time when Welsh farm businesses are expected to be under major pressures as a result of the UK's departure from the EU, irrespective of whether a trade deal is agreed in the coming weeks.

Yours sincerely

Nicholas Fenwick
Head of Policy

FARMERS' UNION OF WALES ANALYSIS AND OBSERVATIONS ON CUTS TO WELSH AGRICULTURAL AND RURAL DEVELOPMENT FUNDING FOR THE FINANCIAL YEAR 2021-2022 ANNOUNCED IN THE 25th NOVEMBER 2020 SPENDING REVIEW

4th December 2020

1. Leaders of the Brexit campaign promised that leaving the EU would not lead to reduced funding for farming and rural areas.
2. During the Second reading of the 2017-2019 Agriculture Bill, the then Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, Michael Gove, stated that agricultural funding would not be Barnettised and that the settlement which allocates money to Wales on rural and agricultural criteria will be maintained.
3. The then Secretary of State for Wales, Alun Cairns, reinforced that commitment on the 11th October 2018.
4. The 2019 Conservative Manifesto stated *"...we will guarantee the current annual [Common Agricultural Policy (CAP)] budget to farmers in every year of the next Parliament."*
5. The EU CAP budget for Wales, for the period 2014-2020, confirmed on 8th November 2013 by the then Secretary of State for Environment Owen Paterson was *"...a pillar 1 (direct payment) allocation of around €2,245 million, and pillar 2 allocation of around €355 million."*¹
6. This is a total of €2.6 billion over the seven year (2014-2020) CAP budgetary period – an average of £331 million a year based on the £0.89/€ exchange rate fixed by the UK Government.
7. On 25th November 2020 the UK Government announced that Wales' 2021-2022 financial year allocation for agriculture and rural development would be £242 million - £89 million (27%) less than the average annual EU CAP allocation for the period 2014-2020.
8. The £242 million figure for the 2021-2022 financial year is £95 million (28%) less than the £337 million received in the 2019 funding 'baseline' defined by the UK Government to calculate Wales' allocation.
9. The UK Government maintains that the total budget available to Wales in 2021-2022 should be judged to be the sum of the £242 million announced on 25th November 2020 and the £95 million in unspent EU funding from the 2014-2020 funding period.
10. Under the EU's 'N+3' rule, the Welsh Government is entitled to spend money from the 2014-2020 Rural Development Programme budget in the three years after the end of the budgetary period to which the money 'belongs'.

¹ <https://www.gov.uk/government/news/uk-cap-allocations-announced>

11. The FUW maintains that since the £95 million is part of the 2014-2020 EU budget, it should not be used as part of the UK Government's 2021-2022 calculation.
12. The average annual EU CAP budget for Wales for the 2014-2020 period was £286 million (Pillar 1) plus £45 million (Pillar 2).
13. 15% of the £286 million Pillar 1 budget is transferred annually to Pillar 2 under the 'Pillar transfer' mechanism, reducing the annual amount paid to farmers through Direct (Pillar 1) Payments to £243, and increasing the average annual EU funding for Pillar 2 (Rural Development) to around £90 million.
14. On 30th December 2019, the UK Government announced £243 million would be made available for Welsh Direct payments in 2020.
15. The *total* CAP replacement funding of £242 million for the 2021-2022 financial year announced by the UK Government on 25th November 2020 is therefore £1 million *below* the 2020-2021 Direct Payment budget announced by the UK Government on 30th December 2019 – and takes no account of the EU annual Pillar 2 funding allocation.
16. While the UK Government announced £243 million in funding for the 2020 Basic (farm) Payment on 30th December 2019, they made no reference to the circa £42 million usually transferred annually to the Pillar 2 (Rural Development) budget.
17. Given that the 15% Pillar transfer is regarded as being available in the year after which it is applied, there is effectively an additional £42 million 'missing' from the £242 million 2021-2022 financial year allocation announced by the UK Government on 25th November 2020 – bringing the total reduction in Wales' 2021-2022 allocation to around £137 million (41%) less than had been anticipated, based on successive promises and the 2019 Conservative Manifesto.
18. The UK Government has pointed out in correspondence to the Welsh Government and FUW that the total EU CAP budget for the period 2021-2027 is €344 billion - €39 billion (10%) less than the €383 billion allocated for the 2014-2020 budgetary period, arguing that this would equate to a £34 million reduction in Wales' annual allocation if the UK was still a member of the EU.
19. One of the reasons that the EU CAP budget has been reduced is because the UK has left the EU and will therefore no longer contribute substantially to the EU budget - so the overall EU 2021-2027 budget is lower than would have been the case if the UK was a member of the EU.
20. However, the number of countries eligible to receive funds from the CAP has also been reduced, as the UK is no longer a member, and the UK previously received around 8% of the EU CAP budget – so the use of the new EU CAP budget in justifications for UK budgets is invalid.

21. Notwithstanding this, if Wales was still eligible to receive the same percentage of the *new* EU (€344 billion) budget as under the 2014-2020 CAP, Wales' share in 2021-2022 would on average be £298 million per year - £56 million (23%) more than was announced by the UK Government on 25th November 2020.
22. While the FUW has labelled Wales' replacement CAP fund allocation as a '*Brexit betrayal*', the Welsh Conservatives have claimed that the Welsh Government has pulled the wool "*...over the Farming Unions [sic] eyes*" and believe that unspent funds from the 2014-2020 CAP budget should be included in the funding calculation.
23. Given that the same funding formula has been applied in England, Scotland and Northern Ireland, the FUW is not alone in believing that the 2021-2022 funding allocations are hundreds of millions below what they should be, based on successive assurances by Secretaries of State and what was stated in the 2019 Conservative Manifesto commitment; those who share the FUW's belief include the Welsh Government, the Scottish Government, the Northern Ireland Executive, NFU Cymru and NFU Scotland.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft Ymatebion i'r ymgynghoriad

Mawrth 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **[@SeneddCyllid](https://twitter.com/SeneddCyllid)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynnws | Contents

* Saesneg yn unig | English only

** Cymraeg yn unig | Welsh only

Rhif Number	Sefylliad	Organisation
PAAW 01*	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Hywel Dda University Health Board
PAAW 02	Estyn	Estyn
PAAW 03	Comisiwn y Cynulliad	Assembly Commission
PAAW 04*	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	Local Democracy and Boundary Commission for Wales
PAAW 05*	Cyngor y Gweithlu Addysg	Education Workforce Council
PAAW 06*	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Wrexham County Borough Council
PAAW 07	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	Public Services Ombudsman for Wales
PAAW 08*	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Aneurin Bevan University Health Board
PAAW 09*	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Betsi Cadwaladr University Health Board
PAAW 10	Swyddfa Archwilio Cymru	Wales Audit Office
PAAW 11*	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Conwy County Borough Council
PAAW 12	Cyngor Celfyddydau Cyru	Arts Council of Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

Ein cyf/Our ref: C428
Gofynnwch am/Please ask for: Rachel Davies
Rhif Ffôn /Telephone: 01267 239866
Dyddiad/Date: 13th January 2020

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building
Hafan Derwen, St David's Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Committee Clerk
Finance Committee
National Assembly for Wales
Cardiff
CF99 1NA

13 January 2020

Dear Committee Member

Many thanks for the opportunity to respond to the consultation document on the Draft Public Audit (Amendment) (Wales) Bill.

Following my attendance at the Finance Committee on 11 July 2019, I am pleased to have received your consultation document and note my responses on behalf of Hywel Dda University Health Board below.

Question 1: We agree with the proposal, recognising it is important to demonstrate that the provision of the WAO's services as a whole needs to demonstrate value for money in undertaking its duties. While we as a Health Board have not needed to escalate any decisions on fee setting arrangements, an escalation or dispute process on fees may be a prudent additional requirement.

Question 2: Yes, but consideration may need to be given to the response to Question 1.

Question 3: Agreed, again cognisant of the response to Question 1.

Question 4: Agreed, again please see the response to Question 1.

Question 5: Agreed.

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth,
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building,
Hafan Derwen, St David's Park, Job's Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Cadeirydd /Chair
Miss Maria Battle

Prif Weithredwr/Chief Executive
Mr Steve Moore

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda
Hywel Dda University Health Board is the operational name of Hywel Dda University Local Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn amgylchedd di-fwg Hywel Dda University Health Board operates a smoke free environment



Question 6: We believe that the question is inconsistent with the proposal in the draft Bill. It is important that all Executive members be allowed to vote in a Board meeting. For instance, it would be improper if the Director of Finance of the WAO were not allowed to vote.

Question 7: Section 13 may require further guidance to be provided on the means by which an employee member is asked to excuse themselves from voting. While this may be usually non-contentious, there may be instances where the selection of an employee member who is asked not to vote could be itself challenging.

Question 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15: We have no issues to raise in relation to these questions.

Question 16 and 17: It may be prudent to provide guidance on who is required to assess acceptable performance for Board members and the Chair.

Question 18, 19, 20, 21, 22, 23: We have no issues to raise in relation to these questions.

Question 24: The questions relating to assessing central government bodies and overlapping laying requirements are not applicable to the NHS, and consequently we do not have an issue to raise. We do not have sufficient information to respond to the question on Welsh data matching powers and how these compare with those of other UK nations.

Question 25: We believe that the financial implications of these proposals for us as an audited entity will be marginal.

Question 26: We have no further observations to make.

I am very grateful for the opportunity to respond to your consultation document. Should you require further clarification, please do not hesitate to contact me directly.

Yours sincerely

Huw Thomas

Director of Finance



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	ChiefInspector@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	02920 446 446
Dyddiad / Date:	7 Chwefror 2020
Pwnc / Subject:	Ymgynghoriad ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygiad) (Cymru) Drafft

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Cwestiwn 1

Cytuno

Cwestiwn 2

Cytuno.

Rydym yn cefnogi newid a nodwyd gan y darparwr gwasanaeth fel un â'r potensial i wella effeithlonrwydd a helpu osgoi cynnydd mewn cyfraddau ffioedd, yn enwedig ar adeg pan fo cyfyngiadau cyllidebol ar wasanaethau cyhoeddus. O fewn fframwaith ffioedd sy'n seiliedig ar adfer costau, mae angen craffu priodol er mwyn darparu sicrwydd bod y darparwr gwasanaeth yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae disgwyliad y bydd y sail ffioedd (amcangyfrif o weithgareddau archwilio a chyfraddau sy'n berthnasol) yn parhau i fod yn dryloyw ac yn agored i her resymol.

Cwestiwn 3

Cytuno

Bydd rheolaeth Bwrdd dros waith lefel y cytundeb yn bwysig i sicrhau bod buddion gwaith o'r fath, e.e. datblygiad sefydliadol a datblygiad staff, wedi'u nodi'n glir ac nad yw'r cyfryw waith yn peryglu gweithgareddau craidd a chyfrifoldebau statudol.

Cwestiwn 4

Cytuno

Cwestiwn 5

Ddim yn cytuno. Ymddengys bod cydbwysedd yr aelodaeth yn briodol, ond mae achos dros hyblygrwydd mewn perthynas â gofynion cworwm.

Cwestiwn 6

Cytuno. Mae hon yn ymddangos yn ymagwedd bragmatig.

Cwestiwn 7

Cytuno. Mae hon yn ymddangos yn ymagwedd bragmatig.

Cwestiwn 8

Cytuno. Mae'r dystiolaeth ar ddiddordeb yn yr adroddiad interim yn awgrymu ei fod yn faich diangen ac yn gost y gellid ei hosgoi i bwrs y wlad.

Cwestiwn 9

Cytuno. Mae hyn yn dileu'r rhwymedigaeth ond yn rhoi opsiwn i adroddiad interim gael ei gynhyrchu.

Cwestiwn 10

Cytuno. Mae'n osgoi dyblygu.

Cwestiwn 11

Cytuno.

Cwestiwn 12

Cytuno. Mae'n annhebygol yr eir ymhellach na'r terfyn amser pedwar mis cyfredol mewn llawer o achosion, ac, yn y cyfryw achosion, bydd eglurhad yn cael ei roi.

Cwestiwn 13

Cytuno.

Cwestiwn 14

Cytuno. Mae'n lleihau cymhlethdod a dylai fod yn broses fwy effeithlon.

Cwestiwn 15

Cytuno

Cwestiwn 16

Cytuno. Mae'r trefniant hwn yn rhoi hyblygrwydd i gadw gwybodaeth ac arbenigedd a gall helpu i gynnal sefydlogrwydd y bwrdd.

Cwestiwn 17

Cytuno.

Cwestiwn 18

Cytuno. Mae'n cefnogi annibyniaeth y sefydliad.

Cwestiwn 19

Cytuno. Mae'n briodol i ddarparu mwy o hyblygrwydd.

Cwestiwn 20

Cytuno. Mae'n briodol i ddarparu mwy o hyblygrwydd.

Cwestiwn 21

Cytuno.

Cwestiwn 22

Cytuno.

Cwestiwn 23

Cytuno.

Cwestiwn 24

Na. Rydym yn cytuno gyda barn y Pwyllgor Cyllid y byddai hyn yn golygu bod rhaid creu darn o waith sylweddol. Awgrymwn fod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau â'r arfer o roi barn reoleiddio, er nad oes unrhyw ddarpariaethau penodol mewn statud, a'i fod yn annog yr holl sefydliadau yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus i gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol.

Cwestiwn 25

Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol, ond byddai gostyngiad yn ein ffi archwilio flynyddol yn cael ei groesawu'n fawr.

Cwestiwn 26

Na.

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Ionawr 2020

Annwyl Llyr

Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru)

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 yn cynghori'r Comisiwn bod eich Pwyllgor wedi cyhoeddi ei adroddiad a'i fod bellach yn ymgynghori ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft.

Mae eich llythyr yn nodi y byddech yn croesawu barn y Comisiwn ar gynigion drafft y Bil.

Yn y gorffennol, rydym wedi llunio dau ymateb i'ch Pwyllgor, dyddiedig **9 Mai 2019** a **27 Mehefin 2019**. Hefyd, darparodd swyddogion y Comisiwn dystiolaeth i'ch Pwyllgor ar 17 Gorffennaf 2019 mewn sesiwn breifat.

Nid oes gennym unrhyw sylw pellach i'w ddarparu ar y materion yr ymdriniwyd â hwy eisoes yn y ddau lythyr ac yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

Ers mis Gorffennaf 2019, mae dau fater ychwanegol wedi codi, yn ymwneud â'r treuliau a dalwyd i Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a nodi'r treuliau a dalwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ar wahân fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1.

Yn ôl yr arfer, cofiwch roi gwybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.



Yn gywir

Suzy Davies

Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan



Atodiad 1

Nodyn ar dreuliau

Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

1. Gall y Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer taliadau Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru ("y Cadeirydd"), a gall y trefniadau hynny wneud darpariaeth ar gyfer "cyflog, lwfansau, rhoddion ariannol, a buddion eraill i dalu treuliau" (paragraff 7 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013). Mae'r symiau hyn i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru (paragraff 7(3) o Atodlen 1 i Ddeddf 2013).
2. Yn ystod 2019-20, yn dilyn newid gan CThEM yn ymwneud â'r amseriad ar gyfer casglu treth ar dreuliau, achubodd Comisiwn y Cynulliad a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) y cyfle i adolygu'r broses ar gyfer talu treuliau Cadeirydd SAC. Mae opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
3. Efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried unrhyw newidiadau ac unrhyw ofynion sydd eu hangen i sicrhau lefel barhaus o dryloywder wrth gyllidebu ac adrodd ar y treuliau hyn.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

4. Dylai'r Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer taliadau i Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn i rywun gael ei benodi i'r swydd. Gall y trefniadau hynny "wneud darpariaeth ar gyfer cyflog, lwfansau, arian rhodd, trefniadau ar gyfer pensiwn a buddion eraill" (adran 7 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013)). Mae'r symiau hynny i'w codi ar Gronfa Gyfunol Cymru (adran 7(6) o Ddeddf 2013).
5. Ar wahân, "caiff SAC wneud darpariaeth i daliadau ychwanegol gael eu gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol drwy lwfansau a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a phrif weithredwr arni" (paragraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013).
6. Mae'r gwahaniaeth rhwng taliadau sy'n daladwy wrth weithredu yn rhinwedd ei swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ar wahân fel prif weithredwr ac aelod o Swyddfa Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyrannu eitemau penodol i'r lwfansau ar wahân fel mai dim ond lwfansau sy'n deillio o weithredu yn rhinwedd swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.



